
# Llyfr lliwio Stori'r Nadolig

## trwy olwg ffenestri lliw




ⓗ Cyhoeddiadau'r Gair 2020




**Yn sydyn dyma filoedd o angylion eraill yn dod i'r golwg, roedd fel petai holl angylion y nefoedd yno yn addoli Duw! "Gogoniant i Dduw yn y nefoedd uchaf, heddwch ar y ddaear islaw, a bendith Duw ar bobl."**
**Luc 2:13 beibl.net**




**Dyma'r angel yn mynd ati a'i chyfarch, "Mair, mae Duw wedi dangos ffafr atat ti! Mae'r Arglwydd gyda ti!"**
**Luc 1:28 beibl.net**




**Tua'r un adeg dyma Cesar Awgwstws yn gorchymyn cynnal cyfrifiad drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd.**
**Luc 2:1 beibl.net**



**Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu geni, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad.**
**Luc 2:3 beibl.net**




**A dyna lle cafodd ei phlentyn cyntaf ei eni – bachgen bach. Dyma hi'n lapio cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn cafn ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.**
**Luc 2:7 beibl.net**



**Ond dyma'r angel yn dweud wrthyn nhw, "Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn. Mae eich Achubwr wedi cael ei eni heddiw, yn Bethlehem (tref y Brenin Dafydd). Ie, y Meseia! Yr Arglwydd!**
**Luc 2:10-11 beibl.net**



**Cafodd Iesu ei eni yn Bethlehem yn Jwdea, yn y cyfnod pan oedd Herod yn frenin. Ar ôl hynny, daeth gwyr doeth o wledydd y dwyrain i Jerwsalem i ofyn, "Ble mae'r un sydd newydd gael ei eni yn frenin yr Iddewon? Gwelon ni ei seren yn codi yn y dwyrain, a dy'n ni yma i dalu teyrnged iddo."**
**Mathew 2: 1-2 beibl.net**



**Achos mae plentyn wedi cael ei eni i ni, mab wedi cael ei roi i ni.**
**Bydd e'n cael y cyfrifoldeb o lywodraethu. A bydd yn cael ei alw yn**
**Strategydd rhyfeddol, y Duw arwrol, Tad yr oesoedd, Tywysog heddwch.**
**Eseia 9:6 beibl.net**